# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID
# LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc<br>*Clerk*<br>**Caroline Jones**<br>01248 602131<br>CyngorLlanllechid@ogwen.org | 26 Stryd Fawr<br>Bethesda<br>Gwynedd<br>LL57 3AE |


**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Festri Capel Bethlehem, Talybont ar nos Iau y 13fed o Fehefin am 1900yh.**

**1. PRESENNOL:**

**Ward Llanllechid Isaf**
Y Cynghorydd Lowri Evans
Y Cynghorydd Evan Jones
Y Cynghorydd Geraint Hughes
Y Cynghorydd Rhydian Williams
Y Cynghorydd Alun Thomas
Y Cynghorydd Robin Williams

**Ward Llanllechid Uchaf**
Y Cynghorydd Jên Morris
Y Cynghorydd Kevin Williams
Y Cynghorydd Dafydd K Jones

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Y Cadeirydd, Y Cyng. Lowri Evans.

**2. Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd Wyn Bowen-Harris

**3. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 13fed o Fai 2024.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**4.1 Twll yn y ffordd ger Wern Bach –** Diweddariad gan Ian Morgan. Mae cyfarfod wedi ei gynnal gyda'r perchennog tir wythnos yma (21/5/24). Rydym wedi cytuno manylion y gwaith ar lafar a bydd yr Uwch Beiriannydd nawr gwneud trefniadau i fesur y gwaith a chael gwaith papur megis gorchymyn cau'r ffordd mewn lle i gyflawni'r gwaith.

**4.2 Arwyddion Maes y Groes –** Adroddwyd Y Cynghorydd Dafydd Meurig fod aelod o staff Cyngor Gwynedd yn gyflogedig i edrych ar enwau lleoedd. Drwy hyn mae'r Cyngor wedi cytuno i osod yr arwyddion. Y Cyng. Dafydd Meurig am drafod lleoliad gosod yr arwyddion gyda'r Cyng. Evan Jones. Dim diweddariad.

**4.3 Arwyddion Cyflymder Maes y Groes –** Trafodwyd ffigyrau mesur cyflymder a dderbynwyd gan Andrew Gregson, Cyngor Gwynedd. Dyddiadau yr arolwg 15/12/2023 – 21/12/2023. Nid yw cyflymder y cerbydau yn peri pryder i'r adran. Er hynny mae'r canlyniadau yma wedi ei gyrru ymlaen i Tim Ganbwyll, Heddlu Gogledd Cymru am adborth. Y Clerc i rannu rhif ffôn Y Cyng. Evan Jones gyda Mr Andrew Gregson.

**4.4 Bin Halen Bryn Derwas** - Ymateb gan Mr Ian Morgan 8/12/23. Ceisiadau am finiau halen o'r newydd dal yn cael eu cysidro, oherwydd nifer y ceisiadau mae'n cymryd amser i weithio drwyddynt i gyd. Y Clerc wedi cysylltu gyda Gwynedd i adrodd fod dwr yn llifo i lawr o Bryn Derwas yn gyson. 16/1/24. Ebost wedi ei yrru i Ian Morgan ar yr 8/3/24. Dim diweddariad. Y Clerc i ddilyn i fyny.

**4.5 Safle bws Talybont -** Y Cyng Wyn Bowen Harris wedi bod yn llwyddiannus gyda cais grant am £500 gan 'Gwynedd Creadigol'. Cafwyd cyfarfod gyda plant lleol, a'r artist lleol, Elen Williams yn Festri Capel Bethlehem ar ddydd Sadwrn 25fed o Fai. Y Clerc i gysylltu gyda Y Cyng Wyn Bowen Harris am ddiweddariad.

**4.6 Dwr yn llifo Chwarel y Bryn –** Cyfarfu Eilir Morgan, Cyngor Gwynedd a'r Cyng Kevin Williams yn y safle. Mae'r gwaith ar rhestr gwaith Cyngor Gwynedd. Y Cyng. Kevin Williams am ail gysylltu gyda Mr Morgan am ddiweddariad.

**4.7 Tyllau yn y ffordd a dwr yn codi Lôn Aber Ogwen a Ty'n Hendre –** Cyfarfu Eilir Morgan, Cyngor Gwynedd a'r Cyng Kevin Williams yn y safle. Mae'r gwaith ar rhestr gwaith Cyngor Gwynedd. Y Cyng. Kevin Williams am ail gysylltu gyda Mr Morgan am ddiweddariad.

**4.8 Dwr ar y ffordd Coed Uchaf, Lôn Goed -** Mae'r gwaith hwn dal angen ei gwblhau ac yn parhau ar raglen waith Cyngor Gwynedd. Mae'r Uwch Beiriannydd wedi nodi bod angen cryfhau ymyl y ffordd mewn cwpwl o safleoedd yn ogystal a gwaith ffosio.

**4.9 Diffyg biniau baw ci ar lwybr beicio Wîg –** Y Clerc wedi bod mewn cysylltiad gyda Mr Peter Simpson, Rheolwr Gwasanaethau Stryd. Y sefyllfa bresenol yw nad yw'n glir pwy sydd gyda cyfrifoldeb dros y llwybr beicio a'r man tynnu mewn. Y Cyng. Dafydd Meurig am gysylltu gyda Mr Simpson am ddiweddariad.

**4.10 Tai i bobl lleol –** Y Cynghorydd Lowri Evans wedi drafftio llythyr i'w hanfon at Mr Gibbard a'r Cynghorydd Siencyn yn codi pryderon sydd gan Cyngor Cymuned Llanllechid am dai fforddiadwy yn Nyffryn Ogwen. Y Clerc wedi derbyn cyfathrebiad gan cynghorau Bethesda a Llandygai yn cefnogi. Y Clerc i anfon y llythyr unwaith mae'n barod i yrru at Mr Gibbard a'r Cynghorydd Siencyn.

**4.11 Ysbwriel –**Swyddog Cynhaliaeth wedi codi ysbwriel ar y ffordd rhwng sgwâr Llanllechid a Chwarel Bryn. Disgwyl anfoneb.

**4.12 Ffens bren ger pont Allt Ty'n Hendre –** Ffens wedi pydru. cafodd y mater yma ei drosglwyddo i sylw ei'n swyddogion strwythurau ar y pryd oherwydd y gylfat gyfagos. Mae'r rel uchaf i weld wedi ei ddifrodi oherwydd bod garreg coping wedi disgyn arno, ond nid yw'n cyflwyno perygl i ddefnyddwyr y ffordd yn ei gyflwr presennol. Mi wneith yr arolygwr codi archeb i adnewyddu'r ffens unai drwy osod coed newydd neu ail-osod y coed presennol, ac ail-osod y garreg coping yr un pryd. (8/2/24). Heb ei thrwsio hyd yn hyn. Y Clerc i ddilyn i fyny.

**4.13 Twll yn y ffordd Ffarm Penybryn** - Roedd y diffyg o fewn y trothwyon diogelwch ar gyfer ffyrdd dosbarth 3, a chafodd ei gofnodi fel diffyg categori 2 sydd yn mynd ar ei'n rhaglen waith a'i gyflawni fel mae adnoddau yn caniatáu. Bydd yr arolygwr yn monitro'r diffyg fel rhan o'i archwiliadau diogelwch rheolaidd. Mae rhain yn cael eu cynnal pob tri mis yn unol a'r Llawlyfr Cynnal Priffyrdd. (Ebrill).
Adroddwyd Y Cyng. Kevin Williams fod y twll wedi ei atgyweirio.

Cytynwyd i dynnu oddi ar y cofnodion.

**4.14 Bin wrth Mynwent Llanllechid -** wedi ei thynnu lawr. Adroddiad wedi ei yrru ymlaen i Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd 5/3/24. Y Clerc i ddilyn i fyny.

**4.15 Tipio anghyfreithlon-**Cafwyd adroddiad fod tipio anghyfreithlon yn digwydd wrth pont Allt Ty'n Hendre. Y Clerc i adrodd i Gyngor Gwynedd.

**4.16 Adran Addysg Cyngor Gwynedd**- Mae'r achos yn ymwneud â chyn bennaeth Ysgol Friars, Neil Foden wedi cael effaith ddofn ar yr ardal leol. Mae llawer o ddisgyblion o'r gymuned yn mynychu Ysgol Friars. Mae'r Cyngor Cymuned yn dymuno mynegi eu pryderon i Gyngor Gwynedd a gofyn beth yw'r camau nesaf ac yn mawr obeithio bod gwersi wedi eu dysgu? Y Clerc wedi danfon ebost at brif weithredwr Cyngor Gwynedd. Disgwyl ymateb.

**4.17 Cae Rhosydd** Trafodwyd stad tai Cae Rhosydd yn nghyfarfod Mis Mai. Adroddwyd fod nifer fawr o'r trigolion wedi symud o stad cyfagos, Maes Bleddyn. Mae'r tai gweigion ym Maes Bleddyn rwan ar restr adnewyddu. Nid oedd y ffigyrau gan Y Cyng. Dafydd Meurig wrth law ond credai fod un disgybl wedi symud i ysgol Llanllechid. Y Clerc i geisio can diweddariad ar demograffeg y stád, a'r nifer o dai gwag yn stád Maes Bleddyn.

**4.18 Giat Mynydd Rachub** Gobeithio bydd cyfarfod safle yn cael ei drefnu'n fuan.

## 5. Adroddiad Cyngor Sir

Gweler pwyntiau uchod.

## 6. Taliadau

Awdurdodwyd y canlynol;

| | | |
|---|---|---|
| DE Williams | Torri gwair Cae chwarae Mai 2024 | £96.00 |
| Clear Councils | Yswiriant | £744.87 |

**7. Y Mynydd**

PCSO Rhys Evans o adran Troseddau Gwledig yr Heddlu yn awyddus i ymuno ac un cyfarfod. Y Clerc i'w wahodd i gyfarfod nes ymlaen yn y flwyddyn.
Derbynwyd y diweddariad isod gan Naomi Jones, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

- Clirio eithin – dim diweddariad pellach ers i mi fynychu cyfarfod y Cyngor Cymuned. Bydd y gwaith yn cael ei gwblhau dros Aeaf 2024/25.
- Trac Moel Wynion – fel uchod ond dwi'n disgwyl bydd y gwaith yn cael ei gwblhau dros Haf 2024.
- Merlod – mae Abbie Edwards wedi'i chomisiynu i gwblhau'r gwaith yma. Mae Abbie wedi derbyn Cyngor cyfansoddiadol/llywodraethiant gan Fantell Gwynedd hefyd. Bydd Abbie yn cysylltu efo'r porwyr a dwi'n disgwyl cyfarfod Abbie i dderbyn diweddariad ar ddechrau mis Gorffennaf.
- Buarthau – dim diweddariad.
- Siwan Llynor – aros i Siwan ail gysylltu efo'r porwyr i fwrw ymlaen efo'r gwaith.

**8. Cae Peldroed/Cae Chwarae Talybont**

**8.1 Peiriant torri gwair** –wedi ei phrynnu a'r toraid cyntaf wedi ei gwneud. Y Cynghorwyr wedi creu grwp WhatsApp i drefnu y toriadau.

**8.2** Cyfarfu Y Cynghorwyr Evan Jones a Wyn Bowen Harries a Sion Eifion Jones (Swyddog Prosiect Cymunedol, ADRA) a Michael Evans (Cydlynydd Rheoli Tir, ADRA). Mae ADRA yn cyflwyno grant hyd at £1,000 tuag at brosiectau cymunedol. Ond, bydd raid i'r cais ddod gan banel etholedig o'r gymuned wedi ei gofrestru ac efo cyfansoddiad a chyfrif banc. ADRA am wirio hyn.
Gallai'r man parcio fod yn broblemus o safbwynt hawl cynllunio ond i gysylltu â Steffan Jones, Uwch Reolwr Priffyrdd i drafod hyn. Disgwyl diweddariad.
Cafwyd cadarnhad nid oes cyfleustodau ar y cae.

Y Clerc wedi gyrru copi o'r cynlluniau i'r Cyng Dafydd Meurig.

**8.3 Contractwyr** - Cafwyd rhai dyfynbrisiau gan contractwyr am y gwaith. Yn aros am ddyfyniadau pellach. Dim diweddariad.

**8.4 Parcio** – Y Cyng. Evan Jones am wneud ymholiadau ynglyn a oes angen hawl cynllunio. Y Clerc i yrru cynllun y Cae chwarae/Maes Parcio i'r Cyng. Dafydd Meurig. Dim diweddariad.

**9. Archwilydd Mewnol/Internal Auditor**

Y Cyngor yn hapus i cymeradwyo'r argymhellion.

**10. Llyfrgell Cymunedol/ Community library**
Mae Partneriaeth Ogwen yn disgwyl ymateb gan gwmni cyfleustodau Octopus cyn llunio adroddiad am gostau annisgwyl trydan y Llyfrgell.

**11. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Mehefin 2024'

**11.1 Dragon's back race –** Dyddiad y ras yn disgyn ar ddiwrnod hel y mynydd. Y Clerc i ymateb i drefnwyr y ras yn gofyn iddynt gysylltu gyda Y Cyng Kevin Williams i drafod. Codwyd efallai y gellid gwneud cyfraniad ariannol i unrhyw brosiectau cymunedol.

**12. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**

Adroddwyd fod Y Cyng. Jen Morris wedi mynychu cyfarfod pwyllgor rheoli Partneriaeth Ogwen. Cafwyd grynodeb o'r amrywiaeth o brosiectau. Hoffai longyfarch y bartneriaeth ac yn gobeithio y byddant yn mynd o nerth i nerth.

**13. Ceisiadau a phenderfyniadau Cynllunio**

**C21/0078/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0099/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C23/0382/21/DT**
Fferm Tyddyn Isaf, Tal Y Bont, Bangor
Dymchwel adeilad allanol ar ochr yr adeilad (adfail) a chodi estyniad newydd ar yr ochr a lolfa haul ar cefn ty annedd.
**Penderfyniad** Ar y gweill

**Ceisiadau Newydd**

**C24/0452/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed
**Pendderfyniad** Ar y gweill
Hoffai'r Cynghorwyr wrthod cefnogi'r cais hyd nes bod cynlluniau mewn lle i ailblannu coed.

**14. Materion Brys/Eraill**

**14.1 Lon Wig**
Adroddwyd fod terfyn cyflymder y llwybr yn 60mya, gyda cerddwyr, beicwyr a cerbydau ar yr un llwybr. Y Clerc i adrodd i Gyngor Gwynedd.

**14.2 Tai Fforddadwy Botwnnog**
Adroddwyd fod erthygl yn rhifyn mis Mai o 'Llanw Llŷn.' Nodwyd gwrthwynebiad cryf at ddatblygiad Cae Capel. Y Cyng. Geraint Hughes am ddrafftio llythyr yn tynnu sylw Cyngor Cymuned Botwnnog at achos Cae Rhosydd.

**15. Adroddiad Llais Ogwan**

Cynhelir cyfarfod Mis Mehefin ar nos Iau 13fed o Fehefin yn Festri Capel Bethlehem, Talybont. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Y Cadeirydd, Y Cynghorydd Lowri Evans.
Cafwyd cyfarfod cyntaf y brosiect celf safle bws Talybont ar ddydd Sadwrn 25fed o Fehefin. Cynhelir gweithdy yn y dyfodol agos i drafod y dyluniad. Cysylltwch â cyngorllanllechid@ogwen.org am fwy o wybodaeth
Mae'r peiriant torri gwair wedi cyrraedd. Rydym yn chwilio am unrhyw wirfoddolwyr a allai helpu o bryd i'w gilydd gyda thorri'r gwair. Cysylltwch â cyngorllanllechid@ogwen.org os gwelwch yn dda.
Hoffai'r Cyngor Cymuned ymestyn gwahoddiad i'r gymuned am unrhyw un sydd a diddordeb mewn torri gwair o gwmpas Bro Emrys, Talybont i gysylltu gyda cyngorllanllechid@ogwen.org am fwy o wybodaeth.
Ma hi'n adeg honno o'r flwyddyn pan fydd trefniadau'n cael eu gwneud i dorri llwybrau troed y plwyf. Os gwelwch yn dda cysylltwch â cyngorllanllechid@ogwen.org os oes unrhyw lwybrau troed yn y plwyf y credwch sydd angen sylw.
Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau 11fed o Orffenaf